**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Ein cyf: MA-RE-1956-20

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

3 Gorffennaf 2020

Annwyl Llyr,

Roeddwn am roi gwybod i'r Pwyllgor fod Trysorlys ei Mawrhydi wedi cymeradwyo blaenswm o £856,557,000 o Gronfa Hapddigwyddiadau'r DU i Swyddfa Cymru yn ddiweddar. Bydd y blaendaliad hwn yn galluogi Ysgrifennydd Gwladol Cymru i fodloni'r rhagolwg o ran y gofynion arian parod Llywodraeth Cymru cyn i Senedd y DU gymeradwyo Prif Amcangyfrifon 2020-21 a ddisgwylir ganol mis Gorffennaf.

Fel arfer, yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn ariannol, caiff gofynion Llywodraeth Cymru o ran arian parod eu diwallu drwy 'bleidlais ar gyfrif' a gymeradwyir gan Senedd y DU o fewn Deddf Cyflenwi a Neilltuadau (Rhagweld ac Addasu) y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r gwariant ychwanegol digynsail sydd wedi digwydd mewn ymateb i bandemig y coronafeirws, nid yw terfyn y bleidlais ar gyfrif yn ddigon i gwmpasu'r arian parod sydd ei angen drwy gydol mis Gorffennaf fel y'i pennwyd cyn y cynnydd yn ein cyllideb ar gyfer 2020-21. Nid yw'r gyllideb flynyddol gynyddol hon, ynghyd â'r cyllid ariannol i'w chefnogi, ar gael nes i Brif Amcangyfrif 2020-21 gael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan Senedd y DU.

Mae'r Gronfa Hapddigwyddiadau yn weithdrefn safonol yn y DU i gael gafael ar arian i fodloni'r angen tymor byr cyn i'r Prif Amcangyfrif gael ei gymeradwyo a chaiff ei ad-dalu unwaith y caiff y Prif Amcangyfrif ei gymeradwyo. Bydd Swyddfa Cymru yn rhoi cyfrif am y blaendaliad a'r ad-daliad.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon o ddefnydd i chi. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Archwilydd Cyffredinol Cymru er gwybodaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.